

cronfa glyndŵr

www.cronfaglyndwr.cymru

Y Grantiau yn Gwneud Gwahaniaeth...

CM Bae Cinmel (marchnata)

"Braf yw gallu adrodd yn ôl y bu i'r cyllid ar gyfer y posteri a phamffledi fod yn hynod werthfawr. Cynhaliwyd bore agored a daeth 7 plentyn newydd. Cafwyd 7 plentyn ar lyfrau'r cylch gyda 2 arall i gychwyn yn yr wythnos ganlynol. Felly, mae'r marchnata wedi gweithio!"

CM Llanerch, Llanelli (marchnata)

"Roeddem wedi gwario`r arian grant i brynu baner i hysbysebu`r Cylch a thaflenni hysbysebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o`r Cylch a`r ddarpariaeth. Mae`r grant wedi bod o fudd mawr. 'Rydym wedi gweld nifer cynyddol yn ymuno â`r grwp Ti a Fi. Mae`r faner hefyd yn effeithiol iawn ac er iddi gael ei harddangos tu allan i`r neuadd yn ddyddiol, 'rydym wedi cael nifer o bobl yn galw i roi enwau eu plant ar y rhestr aros gan ddweud wrthym ni nad oedden' nhw'n sylweddoli bod Cylch yn cael ei gynnal yn y neuadd tan iddynt weld y faner."

CM Machynlleth (adnoddau)

"Mae arwyddion Cwmni Boomerang yn lliwgar, yn ddeniadol ac yn hollol broffesiynol. Mae'r ardal awyr agored wedi gwella ei gwedd a hefyd yn cyfleu ethos y cylch o addysg cyfrwng Cymraeg. 'Rydym yn medru elwa ar hyn drwy ddefnyddio lluniau o'r arwyddion, a'r prosiect ail-ddatblygu'r ardal tu allan, i hyrwyddo'r cylch ymhlith rhieni'r dref."

CM Llanfair Caereinion (adnoddau)

"Mae'r deunyddiau newydd yn cael eu defnyddio yn ddyddiol gan y plant sy'n mynychu'r Cylch ac maent wrth eu bodd gyda nhw. Mae'r deunyddiau mwy addysgiadol, megis pecynnau i ddysgu ysgrifennu llythrennau'r wyddor, yn cael eu defnyddio yn sesiwn y bore pan fydd y plant 3 oed a hŷn yn y cylch a'r jig-sôs a DVDs a'r llyfrau yn cael eu defnyddio yn y prynhawn hefyd pan fydd plant 2 oed a hŷn yn gallu mynychu. Mae digon o ddeunyddiau a theganau yn y cylch rwan fel bod modd newid y llyfrau yn wythnosol a'r plant ddim yn diflasu ar yr un rhai bob tro. Cawson arolygiad Estyn yn ddiweddar ac roedd yr adborth am yr adnoddau a'r llyfrau sydd ar gael yn y cylch yn bositif.

Unwaith eto, diolch o galon am y grant yma gan Gronfa Glyndŵr, mae wedi cael effaith bositif iawn ar ddatblygiad plant bach Cylch Meithrin Llanfair Caereinion."

CM Pontypŵl (ymweliad theatr)

"Fe gawson ni grant gan y Gronfa i brynu tocynnau i fynd i weld SIOE RWTSH RATSH RALA RWDINS yn Theatr y Borough yn Y Fenni . Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant a'u rhieni weld sioe fyw yn Gymraeg. Roedd y tocynnau yn eithaf drud a fyddai pawb ddim wedi gallu fforddio dod gyda ni heb y cymorth yma."

CM Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (adnoddau)

"Mae arweinwyr ein Cylch wedi adnabod yr offer a fyddai'n datblygu gallu, gwybodaeth a sgiliau'r plant yn y maes technoleg gwybodaeth mewn modd sy'n hwyl ac yn gyffrous. Ers derbyn yr adnoddau newydd, mae'n amlwg bod hwn wedi llwyddo. Mae'r plant i gyd wedi tyfu mewn hyder ac annibyniaeth gan ddefnyddio'r holl bethau ac mae staff y cylch wedi darganfod sawl ffordd arloesol i'w defnyddio. Hefyd, mae'n golygu bod y cylch yn barod am y newidiadau gyda'r cwricwlwm newydd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym ni fel Cylch yn ddiolchgar iawn am gyfraniad Gronfa Glyndŵr sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a staff Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd."

YGG Tonyrefail (marchnata)

"Dechreuodd 31 o ddisgyblion yn y Dosbarth Meithrin ym mis Medi yn dilyn yr ymgyrch, sef y rhif uchaf ers nifer fawr o flynyddoedd. Derbyniais nifer o ymholiadau (5) yn holi am yr ysgol a rhoi enwau eu plant i lawr ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Buodd y grant yn help mawr i ni godi proffil yr ysgol yn y gymuned leol."